



Papur Gwybodaeth Manwl

Datganiad yr Hydref a'r Adolygiad Cynhwysfawr ar Wariant 2015

Ar 25 Tachwedd 2015 cyhoeddodd George Osborne AS, Canghellor y Trysorlys, Adolygiad Gwariant a Datganiad Hydref ar y cyd. Mae'r cyhoeddiad yn nodi sut y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu gwario dros £4tn o arian y llywodraeth dros y pum mlynedd nesaf, ynghyd â manylion yr adolygiad gwariant a gynhaliodd Trysorlys Ei Mawrhydi ers dechrau'r Senedd a'r newidiadau i wariant adrannau.

Canolbwyntiodd y Canghellor ei gyhoeddiad ar ddiogelwch cenedlaethol ac economaidd, gyda rhagolygon twf economaidd diwygiedig yn awgrymu y byddai'r Deyrnas Unedig yn tyfu gan 2.4% eleni, gyda thwf cyfartalog i ddilyn y tueddiad hwn dros y pum mlynedd nesaf. Ymrwymodd y Canghellor hefyd i 1 filiwn o swyddi newydd erbyn diwedd y Senedd hon a chynyddu safonau byw i gyfateb â'r twf economaidd.

Fel rhan o ymrwymiad Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru i'n haelodau, yn y papur gwybodaeth yma rydym wedi gweithio gyda thîm Mae Budd-daliadau yn Newid i gasglu data o adolygiad gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ystadegau allweddol a'n rhagolygon am yr effaith posibl ar sector tai Cymru. Rhoddir crynodeb ar dudalen 2 o'r mesurau a gyhoeddwyd yn yr adolygiad gwariant sy'n uniongyrchol berthnasol i gymdeithasau tai ac mae'r manylion i'w cael drwy'r ddogfen.

Crynodeb o Newidiadau

- Gwrthdroi'r newidiadau ar Gredydau Treth a gyhoeddwyd yng Nghyllideb yr Haf
- Newidiadau sylweddol i fudd-dal tai i denantiaid newydd, gan olygu y bydd budd-dal tai yr un fath â'r Lwfans Tai Lleol
- Cyflwyno 'llawr' cyllid Barnett ar gyfer Cymru, gan warantu isafswm cyfran cyllid bob blwyddyn
- Cadarnhau manylion ar y Lefi Prentisiaid i ariannu ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i 3 miliwn o brentisiaethau
- Cynnydd mewn termau real o 4.7% o gyllid cyfalaf ar gyfer Llywodraeth Cymru
- Bydd y rhaglen adeiladu tai fwyaf ers y 1970au yn gweld adeiladu 400,000 o gartrefi newydd yn Lloegr erbyn 2020-21
- Cynnydd mewn Treth Stamp gan 3% ar gartrefi Prynu i'w Gosod ac ail gartrefi



Mesurau'n effeithio'n uniongyrchol ar Gymdeithasau Tai Cymru

1. Gosod uchafswm ar y rhent y bydd Budd-dal Tai yn ei sicrhau yn y sector tai cymdeithasol i fod yn ddim mwy na'r Lwfans Tai Lleol perthnasol.

Ar hyn o bryd caiff budd-dal tai ei gyfrif yn dibynnu ar ffactorau megis y swm o 'rent cymwys' mae'n ofynnol i denant tai cymdeithasol ei dalu, wrth ochr incwm y tenant a'r nifer o ystafelloedd dros ben sydd gan denant yn y cartref. Talir Lwfans Tai Lleol i denantiaid mewn llety rhent preifat, gyda chyfraddau wedi'u gosod yn ôl yr ardal, yn gysylltiedig ag incwm a maint yr aelwyd.

Bydd y newid yma'n cynnwys y Gyfradd Rhannu Llety ar gyfer hawl wyr sengl dan 35 oed heb blant dibynnol. Bwriad y newid hwn yw gwneud y rheolau yn y sector rhent preifat a'r sector rhent cymdeithasol yn debycach. **Bydd yn weithredol ar gyfer tenantiaethau a lofnodir ar ôl 1 Ebrill 2016 gyda hawl i Fudd-dal Tai yn newid o 1 Ebrill 2018 ymlaen.** Rydym yn dal i aros am eglurhad manylion sut y bydd y polisi hwn yn gweithio'n ymarferol a byddwn yn hysbysu ein haelodau cyn gynted â bod gennym fwy o wybodaeth.

Effaith

Effaith y newidiadau hyn fydd cynyddu problemau fforddiadwyedd ar gyfer darpar denantiaid sy'n derbyn budd-daliadau os yw rhenti'n parhau i gynyddu, fel y rhagwelir, dros y 4 blynedd nesaf, Mae 243,582 o bobl yng Nghymru yn hawlio budd-dal tai ar hyn o bryd, ac amcangyfrifir fod 99,800 ohonynt yn denantiaid cymdeithasau tai.

Ar hyn o bryd, mae rhent cyfartalog cymdeithasau tai yng Nghymru yn £82.04 yr wythnos. Er nad oes ffigurau cenedlaethol ar gyfer Lwfansau Tai Lleol ar gael, fel arfer bu'r ffigur yma'n draddodiadol uwch na rhenti cymdeithasau tai heblaw mewn nifer fach o achosion. Fodd bynnag, mae'r Canghellor wedi ymrwymo i rewi Lwfans Tai Lleol am bedair blynedd rhwng 2016 a 2020. Mae hyn yn debygol o olygu mewn rhai ardaloedd na fydd budd-dal tai yn gymaint â swm llawn 'rhent cymwys' ag a wnaiff ar hyn o bryd ac y bydd yn rhaid i denantiaid ganfod mwy o arian i dalu eu rhent o ffynonellau eraill o incwm.

Drwy gynnwys y Gyfradd Rhannu Llety ar gyfer hawl wyr sengl dan 35 oed heb blant dibynnol, mae'n debygol y bydd effaith sylweddol ar dai â chymorth a chynnydd yn yr angen am opsiynau rhannu llety ar gyfer pobl ifanc. Dengys ffigurau diweddaraf yr Adran Gwaith a Phensiynau fod 60,561 o bobl 16-34 oed yng Nghymru yn hawlio budd-dal tai ac y gallai hyn effeithio arnynt. Fodd bynnag, bu nifer y bobl 16-34 oed yn gostwng yn gyson dros y 12 mis diwethaf o 63,677.

2. Cyfyngu taliadau Budd-dal Tai a Chredyd Pensiwn i 4 wythnos ar gyfer rhai sy'n hawlio sydd tu allan i Brydain Fawr

Ar hyn o bryd, gall rhai sy'n derbyn Budd-dal Tai fynd dramor am hyd at 13 wythnos a pharhau i dderbyn Budd-dal Tai. Bydd y newid hwn yn sicrhau na fydd y system budd-daliadau yn talu rhent pobl sy'n mynd tramor am fwy na 4 wythnos ar y tro.



Effaith

Bydd effaith y newidiadau hyn yn arbed £25 miliwn o gyfanswm bil Budd-dal Tai y flwyddyn nesaf - rhan fechan iawn o'r cyfanswm gwariant - ac amcangyfrifwn mai ychydig iawn o effaith a gaiff hyn yng Nghymru. Fodd bynnag, dylai pensïynwyr a thenantïaid sy'n treulio amser tu allan i'r wlad ar gyfer gweithio neu ymweld â theulu fod yn gwybod am yr effaith bosibl ar eu hincwm.

3. Gwrthdroi'r penderfyniad ar gredydau treth a gyhoeddwyd yng Nghyllideb yr Haf

Yng Nghyllideb yr Haf roedd y Canghellor wedi cyhoeddi nifer o newidiadau sylweddol i'r system credydau treth, sef:

- Cyfyngu'r elfen plant mewn credydau treth i 2 blentyn newydd ar gyfer genedigaethau newydd a hawliadau newydd mewn Credyd Cynhwysol o Ebrill 2017
- Dileu'r elfen teulu mewn credydau treth a Chredyd Cynhwysol, a'r premiwm teulu mewn Budd-dal Tai o Ebrill 2016
- Cynyddu cyfradd tapr credydau treth o 41% i 48% o Ebrill 2016
- Gostwng trothwyon incwm mewn credydau treth o £6,420 i £3,850, a gostwng lwfans gwaith mewn Credyd Cynhwysol o fis Ebrill 2016
- Gostwng diystyriad cynnydd incwm mewn credydau treth o £5,000 i £2,500 o Ebrill 2016.

Cafodd dau o'r newidiadau hyn eu gwrthdroi yn yr adolygiad gwariant ar 25 Tachwedd:

- Bydd y gyfradd y caiff dyfarniad hawlydd ei ostwng wrth i bob punt o'u hincwm fod yn uwch na'r trothwy incwm (h.y. 'y gyfradd tapr') yn aros ar 41% o incwm gros; a
- Bydd lefel incwm lle mae credyd treth hawlydd yn dechrau dod yn amodol ar y gyfradd tapr (h.y. 'y trothwy incwm') yn parhau yn £6,420.

Fodd bynnag, bydd y newidiadau i'r elfen plentyn, dileu'r elfen teulu a gostwng y diystyriad cynnydd incwm yn parhau, a daw'r credydau treth yn rhan o'r Credyd Cynhwysol unwaith y bydd y trosglwyddo o'r system budd-daliadau bresennol wedi gorffen.

Effaith

Bwriad y newid arfaethedig i'r gyfradd tapr a'r trothwy incwm oedd dod ag arbedion o £4.2 biliwn i'r Trysorlys yn 2016/17, a £15.2 biliwn dros y pedair blwyddyn wedyn. Fodd bynnag, dywedodd y Canghellor fod y cynnydd mewn derbyniadau treth a thwf economaidd wedi golygu y gall wrthdroi ei benderfyniad blaenorol er mwyn helpu teuluoedd sy'n gweithio.

Bydd y tri newid sydd ar ôl yn golygu arbedion o fwy na £6.3 biliwn dros gyfnod y Senedd, ond erys pryderon am yr effaith a gaiff y newidiadau enfawr hyn ar deuluoedd incwm isel. Yn dilyn y cyhoeddiad yn yr Adolygiad Gwariant, dengys ffigurau gan y Resolution Foundation y bydd effaith sylweddol ar lawer o deuluoedd sy'n gweithio unwaith y cyflwynir Credyd Cynhwysol:



Impact of 2015 Summer Budget and Autumn Statement on net incomes for different family types, Universal Credit system, 2020, £cash

Description	pre-Summer Budget		post-Autumn Statement		Change	
	Gross household earnings	Net household income	Gross household earnings	Net household income	Gross household earnings	Net household income
Single (no kids), full-time, wage floor, renter <i>works 35 hours a week at wage floor, rent £80 a week</i>	£14,780	£13,470	£16,970	£14,610	+£2,190	+£1,150
Single (1 child), part-time, wage floor <i>works 20 hours a week at wage floor</i>	£8,450	£16,280	£9,700	£13,480	+£1,250	-£2,800
Single (1 child), full-time, low earning <i>works 37.5 hours a week at £11.50 an hour</i>	£22,640	£20,450	£22,640	£18,930	+£0	-£1,530
Couple (2 kids), wage floor <i>main earner works 37.5 hours a week, second earner works 20 hours, both earn wage floor</i>	£24,290	£25,890	£27,880	£25,840	+£3,600	-£50
Couple (3 kids), wage floor <i>main earner works 37.5 hours a week, second earner works 20 hours, both earn wage floor</i>	£24,290	£29,620	£27,880	£26,560	+£3,600	-£3,060
Couple (2 kids), low earning, renters <i>main earner works 37.5 hours a week earning £11.50 an hour, second earner works 20 hours earning wage floor, rent £170 a week</i>	£31,090	£33,690	£32,340	£32,590	+£1,250	-£1,100
Couple (2 kids), mid earning <i>both work 37.5 hours a week earning £14.50 an hour</i>	£56,590	£45,830	£56,590	£45,800	+£0	-£30
Couple (2 kids), high earning <i>main earner works 37.5 hours earning £40.50 an hour, second earner works 20 hours a week earning £23 an hour</i>	£103,350	£72,370	£103,350	£72,490	+£0	+£120
Couple (no kids), very high earning <i>both work 37.5 hours a week and both earn £40.50 an hour</i>	£158,420	£106,460	£158,420	£106,620	+£0	+£150

Notes: Figures relate to modelled hypothetical outcomes in 2020-21 on the assumption that these families are on Universal Credit and are making a new claim. All figures are presented in cash terms. Impacts cover the effects of direct tax and benefit changes, but assume no behavioural change or dynamic effects. Wage floors reflect OBR projections for 2020 (A National Minimum Wage of £8.10 and a National Living Wage of £9.30). We do not take account of the cost of formal childcare. Figures may not sum due to rounding (all are rounded to nearest £10). Inflation and earnings projections are taken from OBR assumptions published at the Autumn Statement 2015.

Source: Resolution Foundation analysis using RF microsimulation model.

4. Datganoli ffi rheoli llety dros dro i Awdurdodau Lleol

Cyhoeddodd y Canghellor y bydd y llywodraeth yn datganoli'r gyllideb ffi rheoli llety dros dro o £10m i gynghorau o fis Ebrill 2017.

Effaith

Bydd hyn yn golygu na chaiff ffi rheoli llety dros dro ei thalu mwyach drwy'r system budd-daliadau. Ni chaiff effaith llawn y mesur ei ddeall hyd yma, fodd bynnag rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid a sefydliadau perthnasol i benderfynu manylion llawn y polisi a byddwn yn hysbysu aelodau cyn gynted â bod gennym fwy o wybodaeth.

5. Cyflwyno 'llawr' ar gyfer cyllid Barnett i Lywodraeth Cymru

Mae'r Adolygiad Gwariant yn nodi dyraniadau grant bloc ar gyfer gweinyddiaethau datganoledig, yn



sicrhau gwarchod cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus o fewn eu rheolaeth - yn cynnwys iechyd, ysgolion, llywodraeth leol, trafndiaeth a thai.

Wrth ochr hyn mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig, am y tro cyntaf, wedi cyflwyno 'llawr cyllid' newydd sy'n gosod lefel cyllid cymharol Llywodraeth Cymru ar isafswm o 115% o wariant tebyg Llywodraeth y Deyrnas Unedig fesul pen h.y. am bob £100 a werir ar wasanaethau Lloegr yn unig, bydd Cymru yn derbyn £115.

Effaith

Adroddodd Comisiwn Holtham yn 2010 fod Cymru yn cael ei thanariannu gan o leiaf £300m y flwyddyn gan y ffordd y gweithredir Fformiwla Barnett ar hyn o bryd - y ffordd y caiff y bloc grant ei gyfrif - a bwriad y llawr yw sicrhau nad yw dyraniadau cyllid i Gymru yn gostwng yn is na lefel arbennig - a elwir fel arall fel 'gwasgfa Barnett' - i sicrhau y caiff Cymru ei chyllido'n well yng nghyswllt gwariant yn Lloegr.

Mae cyhoeddiad y Canghellor yn cyflawni argymhelliad Comisiwn Holtham o lawr 115% a nod hirdymor y llawr yw sicrhau fod gan Gymru ddigon o gyllid i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen. Fodd bynnag, mae fformiwla Barnett yn parhau i fod yn seiliedig ar boblogaeth yn hytrach nag amcangyfrif o angen.

Cadarnhaodd y Canghellor hefyd y byddai Bloc Grant Cymru ar gyfer 2016/17 yn cynyddu i £13bn gyda chyfalaf yn parhau'n gyson ar £1.5bn. Fodd bynnag, ar draws cyfnod y Senedd, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai refeniw yn gostwng gan 3.6% mewn termau real tra bydd cynnydd termau real o 4.7% mewn cyfalaf.

6. Newidiadau Treth Stamp

Cyhoeddodd y Canghellor newidiadau sylweddol i Dreth Dir y Dreth Stamp (SDLT) yn y Datganiad Hydref, sy'n anelu i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy ar werth. Codir cyfraddau uwch o SDLT ar brynu anheddau ychwanegol megis eiddo Prynu i'w Gosod ac ail gartrefi. Daw'r polisi i rym o fis Ebrill 2016 a bydd yn golygu cynnydd o 3% yng nghyfraddau presennol SDLT. Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn defnyddio peth o'r dreth ychwanegol a gasglwyd i ddarparu £60m ar gyfer cymunedau yn Lloegr lle mae effaith ail gartrefi yn neilltuol o ddwys.

Effaith

Bydd y newidiadau hyn yn weithredol yn Lloegr a'u bwriad yw gostwng nifer yr anheddau Prynu i'w Gosod ac ail gartrefi a brynwyd ac felly gynyddu cyflenwad tai. Fodd bynnag, yn dilyn argymhellion Comisiwn Silk, deddfodd Deddf Cymru ar gyfer datganoli yr SDLT i Gymru. Caiff y dreth hon ei datganoli unwaith y caiff Awdurdod Refeniw Cymru ei sefydlu gan Fil Casglu a Rheoli Treth (Cymru), sydd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a gallwn ddisgwyl gweld y Cynulliad nesaf yn datblygu polisiâu penodol i Gymru ar yr SDLT.



7. Ymestyn y Disgownt Cartref Cynnes

Yn ystod y gaeaf, bydd gan aelwydydd sydd mewn anawsterau ariannol hawl i daliad unigol o £140 oddi ar eu biliau ynni. Caiff y Disgownt Cartref Cynnes ei ymestyn i 2020-2021. Bydd y gyllideb ar gyfer y Disgownt Cartref Cynnes yn codi o £6.2 biliwn yn 2015-16 i £13.1 biliwn yn 2020-21.

Effaith

Croesewir yr ymestyn yma i gynllun sy'n cynorthwyo llawer o denantiaid cymdeithasau tai. Gall yr ad-daliad fod o help sylweddol i bobl sy'n ei chael yn anodd talu eu biliau tanwydd ond nid yw'n cyfrannu at gynyddu incwm aelwydydd, sy'n rhan hanfodol o drechu tlodi. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymrwmo i barhau ac ymestyn y Cynllun Disgownt Cartref Cynnes fel bod aelwydydd incwm isel hefyd yn derbyn cymorth awtomatig gan eu cyflenwr ynni.

8. Disodli'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni

Caiff y Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) ei ddisodli yn Ebrill 2017 gan 'oblygiad cyflenwi ynni rhatach i ostwng allyriadau carbon'. Bydd y cynllun newydd yn rhedeg am bum mlynedd ac mae'n anelu i gynyddu effeithiolrwydd ynni dros 200,000 o gartrefi bob blwyddyn.

Effaith

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dweud y bydd y cynllun newydd yn mynd i'r afael ag achos gwraidd tlodi tanwydd a chyflawni ei ymrwymiad i gynyddu miliwn yn fwy o gartrefi yn ystod y Senedd hon. Fodd bynnag, mae newid cynlluniau yn golygu toriad dwfn i'r unig raglen effeithlonrwydd ynni sy'n weithredol ar draws y Deyrnas Unedig. Er y bwriedir targedu polisi effeithiolrwydd ynni yn well, mae'r toriad mewn cyllid yn golygu fod y cynllun newydd yn annhebyg o fod yn ddigonol i gyflawni targedau presennol y Deyrnas Unedig ar dlodi tanwydd.

Mae'r cynnydd yng nghost ynni yn bryder i lawer o aelwydydd yng Nghymru a gwyddom mai un o'r camau gweithredu mwyaf uniongyrchol y gallwn eu cymryd i ostwng biliau ynni pobl yw gwella effeithiolrwydd ynni eu cartref. Gall buddsoddiad effeithiolrwydd ynni ostwng biliau tanwydd a thlodi tanwydd, gwella iechyd pobl, creu swyddi a gostwng allyriadau carbon. Dangosodd ffigurau diweddar o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol y bu 43,900 yn fwy o farwolaethau yn ystod y gaeaf y llynedd yn Lloegr a Chymru - sy'n dangos yr angen am fuddsoddiad pellach wrth fynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy effeitholrwydd ynni.

9. Cyflwyno Lefi Prentisiaeth o fis Ebrill 2017

Cadarnhaodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai'r lefi a gyhoeddwyd ar flaenorol i fusnesau ariannol eu hymrwymiad o 3 miliwn o brentisiaethau yn Lloegr yn dechrau ym mis Ebrill 2017. Cyflwynir y lefi yma ar gyfradd o 0.5% o gyflogres cyflogwr a'r bwriad yw codi £3 biliwn yn flynyddol erbyn 2019-



20. Bydd pob cyflogwr yn derbyn lwfans o £15,000 i'w wrthbwysu yn erbyn y taliad lefi yma. Mae hynny'n golygu mai dim ond ar gyflogres o £3 miliwn y telir y lefi a disgwylir y bydd yn effeithio ar lai na 2% o gyflogwyr y Deyrnas Unedig.

Effaith


Bydd yn ofynnol i fusnesau gyda bil cyflogau o fwy na £3 miliwn wneud taliadau, drwy'r system dreth, o 0.5% ar eu cyflogres yn flynyddol. Er mai polisi ar gyfer Lloegr yn unig yw'r targed o 3 biliwn prentisiaeth, gweithredir y lefi ar draws y Deyrnas Unedig. Bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn cyfran o'r gwariant ar brentisiaethau yn Lloegr ond maent wedi galw'r lefi yn faich treth diangen ar gyfer cyflogwyr, sy'n golygu y bydd busnesau Cymru yn talu arian yn ôl i'r Trysorlys. Maent wedi dweud bod y lefi yn annhebygol o arwain at arian newydd ar gyfer addysg a sgiliau Cymru, gan fod cyllid grant presennol yn gostwng.

10. Isafswm Cyflog Byw

Bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol, a gyhoeddwyd yn flaenorol gan y Canghellor yng Nghyllideb yr Haf, yn gweld isafswm cyflog ar draws y Deyrnas Unedig yn codi i £7.20 yn Ebrill 2016. Bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn weithredol i weithwyr 25 oed ac uwch ac mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi caniatáu'r Comisiwn Cyflogau Isel i nodi sut y bydd yn cyrraedd 60% o enillion cymedrig erbyn 2020, yn seiliedig ar ragolygon yr OBR, mae hyn yn golygu y bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn cyrraedd targed y llywodraeth o dros £9 erbyn 2020.

Effaith

Mae'r siart islaw'n dangos y rhagamcan ar gyfer y Cyflog Byw Cenedlaethol yn ystod y Senedd.





Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cydnabod y gall Cyflog Byw Cenedlaethol uwch gynyddu costau ar gyfer rhai busnesau. Felly, maent wedi cyhoeddi y byddant yn cynyddu Lwfans Cyflogaeth cyfraniadau Yswiriant Gwladol o £2,000 i £3,000 y flwyddyn i helpu busnesau gyda chostau cyflog ychwanegol.

Mae nifer o sectorau wedi codi pryderon am effaith y Cyflog Byw Cenedlaethol ar eu busnes, yn neilltuol y sector gofal cymdeithasol. Yn yr Adolygiad Gwariant, cyhoeddodd y Canghellor 'braesept' gofal cymdeithasol i Lloegr yn unig, yn rhoi hyblygrwydd o 2% ychwanegol i awdurdodau lleol yn Lloegr ar drothwy refferendwm treth gyngor presennol i'w ddefnyddio'n llwyr ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion. Wrth ochr cyhoeddiad arall Lloegr yn unig - y 'Gronfa Gofal Gwell' £1.5m - dywedodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd hyn yn galluogi cynghorau i barhau i ganolbwyntio ar bynciau craidd a chodi'r pris a dalant am ofal, yn cynnwys costau'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

Mae gofal cymdeithasol a chyllid llywodraeth leol ill dau yn faterion datganoledig, a bydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau'r cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn pan gyhoeddant eu cyllideb ar 8 Rhagfyr.

11. Clustnodi £10 biliwn y flwyddyn yn fwy mewn termau real i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol erbyn 2020-21 nag yn 2014-15, gyda £6 biliwn y flwyddyn ar gael erbyn y flwyddyn gyntaf.

Mae'r cynnydd yma mewn cyllid iechyd wedi arwain at gynnydd bychan yng nghyfanswm cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru, er y cafodd ei wrthbwysu gan doriadau i wasanaethau eraill yn Lloegr sy'n arwain at doriad mewn termau real i gyllid Llywodraeth Cymru. Mae cynyddu cyllid ar gyfer iechyd yn Lloegr yn debygol o arwain at bwysau gwleidyddol ar Lywodraeth Cymru i gynyddu ei chyllideb iechyd ei hun. Ar yr un pryd, mae'n rhaid cydnabod rôl ataliol tai a gwasanaethau a ddarperir gan gymdeithasau tai. Mae manifestio Cartrefi Cymunedol Cymru ar gyfer yr etholiadau i'r Cynulliad yn 2010 yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu pot cyllid £50m drwy'r Adran Tai ar gyfer cynlluniau iechyd a thai ar y cyd.

Mesurau'n effeithio ar Gymdeithasau Tai yn Lloegr a all gael effaith yng Nghymru

11. Dyblu cyllideb tai Cymru o 2018-19 i ddarparu 400,000 o gartrefi newydd

Mae Adolygiad Gwariant yn nodi cynllun pum pwynt ar gyfer tai fforddiadwy yn Lloegr, yn canolbwyntio ar berchentaeth fforddiadwy. Dywedodd y Canghellor y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn sicrhau dechrau ar 400,000 o dai fforddiadwy erbyn 2020-21. Mae rhai mesurau'n cynnwys:

- 200,000 o gartrefi cyntaf, a werthir ar ddisgownt o 20%, o gymharu â gwerth y farchnad ar gyfer prynwyr ifanc tro cyntaf, gyda chronfa o £2.3 biliwn i gefnogi darparu hyd at 60,000 ohonynt.



- 135,000 o gartrefi Cymorth Prynu: Rhanberchenogaeth fydd yn galluogi mwy o bobl i brynu cyfran yn eu tai a phrynu mwy o gyfrannau dros gyfnod, fel y gallant fforddio. Bydd y cynllun hefyd yn llacio cyfyngiadau blaenorol ar gymhwyster.
- 10,000 o gartrefi fydd yn galluogi tenant i gynilo am ernes tra byddant yn rhentu.
- O leiaf 8,000 o gartrefi arbenigol ar gyfer pobl hŷn a phobl gydag anableddau.

Bydd maint y rhaglen adeiladu tai yn golygu y bydd angen i bob sector fod â rôl mewn darpariaeth a bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dileu cyfyngiadau sy'n rhwystro sefydliadau sector preifat rhag cymryd rhan wrth eu darparu. Bydd hyn yn golygu y gall datblygwyr preifat wneud cais am gyllid llywodraeth am y tro cyntaf.

Wrth ochr y cyhoeddiad am adeiladu tai, cadarnhaodd y Canghellor y caiff Hawl i Brynu ei ymestyn i denantiaid cymdeithasau tai yn Lloegr. Bydd cynllun peilot yn dechrau gyda phum cymdeithas tai yn Lloegr ar unwaith.

Effaith

Bydd y cynnydd yn y gyllideb tai yn Lloegr, ynghyd â nifer o brosiectau cyfalaf eraill, yn arwain at gyllideb uwch ar gyfer prosiectau cyfalaf yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r £900m ychwanegol o gyfalaf y byddant yn ei dderbyn dros y blynyddoedd nesaf i ddatblygu datrysiad Cymreig i'r argyfwng tai sy'n cydnabod blaenoriaethau Cymru.

Bydd y cyfle i ddatblygwyr preifat gynnig am grant yn newid deinamig eu perthynas gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n rhaid i ni ragweld hyn a gweithio'n agos gyda nhw i sicrhau fod Cymru yn lle deniadol i ddatblygu cartrefi fforddiadwy.

12. Tir cyhoeddus

Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwerthu gwerth £4.5 biliwn o dir ac eiddo'r Llywodraeth, gan ddarparu lle ar gyfer mwy na 160,000 o gartrefi newydd.

Effaith

Er y bydd y targed o 160,000 o gartrefi yn Lloegr yn unig, gallai gwerthu tir Llywodraeth y Deyrnas Unedig gael effaith ar Gymru. Mae nifer o adrannau heb eu datganoli e.e. y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn berchen ar safleoedd yng Nghymru a gallai'r cyhoeddiad yma fod yn berthnasol iddynt.

Wrth ochr hyn, mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn galw am ddefnydd tebyg o dir Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn ein [manifesto](#) ar gyfer etholiadau 2016 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.



Y Camau Nesaf

Yn dilyn Datganiad Hydref a Chyhoeddiad Adolygiad Gwariant y Canghellor, bydd Llywodraeth Cymru wedi cael ei therfynau gwariant ar gyfer 2016/17 a thu hwnt wedi'u cadarnhau.

Caiff cyllideb Llywodraeth Cymru ei chyhoeddi ar 8 Rhagfyr 2015 a bydd Cartrefi Cymunedol Cymru yn monitro datblygiadau yn yr holl feysydd sy'n effeithio ar aelodau, yn cynnwys Grant Tai Cymdeithasol a chyllid Cefnogi Pobl. Rydym hefyd yn aros am benderfyniad ar renti tai cymdeithasol a byddwn yn hysbysu aelodau beth sy'n digwydd.

Rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi cyfran sylweddol o'r cyllid cyfalaf ychwanegol a dderbyniwyd drwy'r adolygiad gwariant mewn tai yng Nghymru. Bydd buddsoddiad parhaus, ynghyd â ffrwd incwm rhent, yn galluogi cymdeithasau tai yng Nghymru i ddarparu 12,500 o gartrefi yn nhymor nesaf y Cynulliad, cynnydd o 25% ar y targed presennol o 10,000 o gartrefi fforddiadwy.

Rhaid i ddull gweithredu penodol i Gymru hefyd ymestyn i'r gwasanaethau a gynigiwn, a ffocws ar ataliaeth, a byddwn yn parhau i atgoffa Llywodraeth Cymru am werth rhaglenni megis Cefnogi Pobl a Gofal a Thrwsio.

Byddwn yn parhau i alw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar wahanol flaenoriaethau yng Nghymru - nid dim ond ar berchnogaeth cartrefi. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi darpariaeth tai ar draws pob daliadaeth yn cynnwys tai cymdeithasol i sicrhau marchnad tai effeithlon.

Cartrefi Cymunedol Cymru Tachwedd 2015